

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywio'r  
Gymraeg

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2017

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD LLUN, 18 RHAGFYR 2017 am 10.00 am yn YSTAFELL GYNHADLEDD 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn bresennol y cyngor.

### **4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn bresennol y cyngor.

### **5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 DATBLYGIAD STRATEGOL YR IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 5 - 8)

Ystyried adroddiad gan yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchu (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y gwaith sydd wedi ei wneud o ran datblygiad strategol yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych, yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor ei hun.

**7 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020**  
(Tudalennau 9 - 26)

Ystyried adroddiad gan Brif Reolwr Cefnogi Addysg (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2017 – 2020 a manylu ar y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

**8 FFRAMWAITH MWY NA GEIRIAU** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Datblygu Staff (copi'n amgaeedig) yn hysbysu aelodau o'r cynnydd a wnaed o ran datblygu Fframwaith Mwy na Geiriau / More Than Words.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi'n amgaeedig).

**AELODAU**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard  
Ann Davies  
Tony Flynn  
Huw Hilditch-Roberts  
Paul Penlington  
Arwel Roberts

Anton Sampson  
Tony Thomas  
Graham Timms  
Joe Welch  
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	18 Rhagfyr
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Gareth Watson – Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
<b>Teitl:</b>	Datblygiad Strategol yr Iaith Gymraeg.

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â datblygu'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych, yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor ei hun.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Hysbysu'r aelodau o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â datblygiad strategol yr iaith Gymraeg.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 4. **Manylion yr adroddiad**

Mae cryn dipyn o waith wedi digwydd yn Sir Ddinbych yn yr ymdrechion i ymateb yn bositif i newidiadau mewn deddfwriaeth iaith. Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau.

Tîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb strategol dros yr iaith Gymraeg yng Nghyngor Sir Ddinbych. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, gyda'r Cynghorydd Huw Jones yr Aelod Arweiniol gwleidyddol â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Arweinydd Tîm Cyfathrebu ac Ymgyrchu sydd â chyfrifoldeb dros faterion y Gymraeg.

Mae'r Cyngor eisoes yn ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Iaith Gymraeg ac mae eisoes wedi gweithredu llawer o'r camau a gytunwyd. Mae hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fframwaith Mwy na Geiriau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith ac mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun gweithredu yn y sir, er budd trigolion y sir.

**Safonau'r Gymraeg:** Prif ffocws y Cyngor dros y tair blynedd diwethaf fu paratoi a gweithredu'r 169 o Safonau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae gwaith helaeth wedi mynd rhagddo o fewn gwasanaethau i newid prosesau, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth dwyieithog, gan ganolbwyntio ar y cynnig gweithredol. Mae'r Safonau wedi'u categorio o dan bedair thema allweddol: gohebiaeth, hyrwyddo, llunio polisi a gweinyddu mewnol o fewn y Cyngor.

Cynhaliwyd cyfathrebu helaeth o amgylch y Safonau, gan gynnwys negeseuon staff rheolaidd gan y Prif Weithredwr, cyflwyniadau mewn Cynadleddau Arweinyddiaeth, sesiynau galw heibio i staff, cyflwyniadau mewn cyfarfodydd tîm.

Datblygiad allweddol o'r Safonau yw creu Strategaeth Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso ei defnydd o fewn y sir. Yr uchelgais yw atal y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych. O ganlyniad, rydym yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych 0.5% dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried targed tymor hirach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Bydd y Cyngor yn cyflawni prif elfennau'r strategaeth hon trwy weithio'n strategol ac ar y cyd â llu o sefydliadau cymunedol i brif-ffrydio'r iaith Gymraeg ymhellach i ddarparu gwasanaethau a sicrhau ei fod yn ystyriaeth hanfodol mewn prosiectau, strategaethau a chynlluniau gwaith yn y dyfodol.

Mae pum maes allweddol ar gyfer datblygu a amlygir yn y strategaeth:

- Thema 1: Cynllunio Strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych
- Thema 2: Plant a Phobl Ifanc
- Thema 3: Cymunedau
- Thema 4: Busnes a'r economi
- Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol o fewn y Cyngor

Mae'r pum thema hyn yn deillio o ymchwil helaeth a wnaed ar ran yr awdurdod.

**Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg:** Mae'r holl wasanaethau wedi enwebu Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg yn eu gwasanaeth a'u rôl yw annog cydymffurfiaeth â'r Safonau ac adrodd ar unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio. Mae posteri wedi'u gosod yn y prif adeiladau a'r derbynfydd, er mwyn hysbysu staff am eu hyrwyddwyr gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter.

**Sesiynau galw heibio i staff** - Mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o sesiynau galw heibio i staff gyda chwestiynau am weithredu'r Safonau.

**Rhaffau Gwddf Cymraeg Gwaith** - Mae pob aelod o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddysgwyr wedi cael rhaffau gwddf, felly mae aelodau'r cyhoedd a chydweithwyr mewnol yn gallu eu hadnabod ar unwaith fel siaradwyr Cymraeg.

**Llofnodion e-bost:** Mae staff wedi cael templedi i'w cynorthwyo i baratoi eu llofnodion e-bost yn ddwyieithog.

**Cysill a Microsoft Office yn Gymraeg:** Mae pob siaradwr Cymraeg a dysgwr wedi cael Cysill wedi'i osod ar eu systemau cyfrifiadurol. Mae canllawiau hefyd wedi'u rhoi i staff ar sut i gael mynediad i Microsoft Office trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ateb y ffôn** - Mae'r Cyngor wedi darparu templedi ar gyfer staff gyda chanllawiau ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan gynnwys darparu geiriad wedi'i ysgrifennu'n ffonetig.

**Mewnwyd** - Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mewnwyd newydd sbon sydd ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â Saesneg.

**Casglu gwybodaeth am staff** - Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon blynyddol, gan ofyn i'r staff hunanasesu eu sgiliau ieithyddol. Yna caiff yr wybodaeth hon ei hadrodd yn ôl i'r gwasanaethau a dylid ei ddefnyddio fel rhan o'r broses cynllunio gweithlu.

**Prif linell ffôn y Cyngor** - Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system lle gall pobl ddewis iaith pan fyddant yn cysylltu â'r Cyngor trwy'r prif rif ffôn.

**Gwobrau Rhagoriaeth Staff** - Cyflwynwyd gwobr arbennig i'r Gwobrau, i anrhydeddu staff am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddatblygu'r Iaith Gymraeg o fewn y Cyngor.

**Diwylliant ac ethos y sefydliad** - Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad sefyllfa ar sut y mae'n bwriadu gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn 2016 i ddatblygu hyn, gan gynnwys hyrwyddo cyrsiau hyfforddi Cymraeg a chyfleoedd anffurfiol a ffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Ymarfer Siopwr Cudd** - Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â Menter Iaith Sir Ddinbych a thros y chwe mis nesaf, cynhelir ymarfer 'siopwr cudd', i wirio cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Cyflwyno cydymffurfiaeth â'r Iaith Gymraeg mewn Heriau Gwasanaeth - Mae'r Cyngor wedi cyflwyno adran ar gydymffurfiaeth â'r Iaith Gymraeg yn y broses herio gwasanaeth blynyddol lle gofynnir i bob gwasanaeth ddarparu tystiolaeth ar berfformiad.

## 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cyngor wedi llunio gweledigaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg a chymeradwywyd hyn fel rhan o'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Mae hon yn elfen sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r holl flaenoriaethau corfforaethol.

## 6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn hysbysebu am Swyddog Iaith Gymraeg a fyddai'n adrodd i'r Arweinydd Tîm - Cyfathrebu. Byddant yn cynorthwyo'r Arweinydd Tîm o ran datblygu strategol yr Iaith Gymraeg yn yr awdurdod.

Nid oes unrhyw gyllideb arall ar gyfer yr Iaith Gymraeg, gydag unrhyw gostau yn cael eu hamsugno trwy'r cyllidebau presennol.

## 7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori helaeth gyda'r Cabinet, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Staff a Fforwm yr Iaith Gymraeg trwy gydol y broses o gynllunio a gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd ynglŷn â chreu Strategaeth yr Iaith Gymraeg, gyda'r holl wasanaethau yn gysylltiedig â'i chreu. Fe'i cadarnhawyd hefyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn ogystal â'r Cabinet.

**9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau'r Iaith Gymraeg i barhau i gefnogi gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol.

Er mwyn lliniaru'r risgiau, mae angen gwaith rhagweithiol parhaus gyda'r holl wasanaethau i gadw datblygiad yr iaith Gymraeg a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg yn effro ym meddyliau pobl.



Adroddiad i'r: **Pwyllgor yr Iaith Gymraeg**

Dyddiad y Cyfarfod: **18 Rhagfyr, 2017**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Cynghorydd Huw Hilditch Roberts - Aelod Arweiniol  
Addysg a Phobl Ifanc  
Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant**

Awdur yr Adroddiad: **Geraint Davies - Prif Reolwr Cefnogi Addysg**

Teitl: **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â Chynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2017-2020 arfaethedig y Cyngor (Atodiad 1)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybodaeth i'r aelodau ar y gwaith a wnaed hyd yma wrth i ni aros am gymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2017-2020 yn ffurfiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dylai'r aelodau ystyried a deall cynnwys yr adroddiad ar gyfer y cynllun strategol arfaethedig, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'n angenrheidiol i bob awdurdod lleol gynhyrchu a chyflwyno eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCmA) i Lywodraeth Cymru er mwyn dangos sut y maent yn bwriadu cyflawni'r deilliannau a'r targedau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.2 Y saith deilliant yw:

1. Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
2. Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd
3. Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
4. Mwy o fyfyrwyr rhwng 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
5. Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg
6. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

7. Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

- 4.3 Mae gan Gyngor Sir Ddinbych weledigaeth tymor hir lle rydym yn dyheu y bydd holl blant a phobl ifanc y Sir yn gadael addysg llawn amser gyda'r gallu a'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.4 Mae'r cynllun drafft hwn wedi'i dargedu ar wella sgiliau, yn enwedig sgiliau cyfathrebu ar lafar a sgiliau deall. Bydd sgiliau a ddatblygwyd yn y blynyddoedd cynnar yn gwella cynnydd yn y Gymraeg ac yn gosod y sylfaen a fydd yn arwain at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.
- 4.5 Amcanion y cynllun drafft hwn yw:
- Sicrhau a datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ledled y Sir
  - Cefnogi'r cynnydd mewn sgiliau cyfathrebu ar lafar a sgiliau deall Cymraeg ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar
  - Codi'r safon a chynyddu faint o Gymraeg a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
  - Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf
  - Gwella cyraeddiadau yn y Gymraeg ac mewn pynciau a astudir drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol ym mhob ysgol
  - Datblygu gweithlu cynaliadwy er mwyn cynnal darpariaeth y dyfodol
- 4.6 Bydd y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi ac yn monitro datblygiad y cynllun hwn yn erbyn yr amcanion cytunedig. Yn ychwanegol bydd disgwyl i bob ysgol roi adroddiad ar eu cynnydd yn erbyn deilliannau'r cynllun yn Adroddiad Blynyddol eu Corff Llywodraethol i rieni.
- 4.7 Er ein bod yn dal i aros am gymeradwyaeth ffurfiol, mae cynnydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig ynglŷn â -
- Gwaith ar y gweill wrth ddatblygu partneriaethau. Mae Cylch Meithrin Dinbych Ucha wedi'i sefydlu a'i ariannu mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg.
  - Mae pedair ysgol wedi'u nodi ar gyfer gweithredu a gofynnir iddynt rŵan ymateb yn ffurfiol i'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg.
  - Mae cynllun arbrolfol wedi'i gychwyn gydag un ysgol yn y Rhyl i ddatblygu cynnig y cwricwlwm.
  - Bydd fersiwn o'r siarter iaith yn benodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg – 'Campws Cymraeg' yn cael ei gyflwyno dros y misoedd nesaf.
  - Datblygu strategaeth farchnata i wella'r cynnig Cymreig yn yr Awdurdod.
- 4.8 Mae'r cynllun yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Rheoliadau Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.
- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
- 5.1 Bydd y cynnig yn cefnogi'r blaenoriaeth corfforaethol o "Fan lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny".

5.2 Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r laith Gymraeg ac wedi croesawu Safonau'r laith Gymraeg.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Disgwylir y bydd amcanion y cynllun yn cael eu diwallu gan ddefnyddio'r adnoddau presennol. Byddai unrhyw adnoddau eraill a ddaw i sylw fel rhai sy'n angenrheidiol i gefnogi un o amcanion y cynllun yn destun adroddiad ar wahân.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Mae'r cynllun newydd ar gyfer y cyfnod 2017-2020 felly bydd y camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn y tymor byr/canolog ond bydd canlyniadau hirdymor i'w heffaith.

7.2 Bydd y cynllun yn cynyddu cyfleoedd i bob plentyn wella lefel eu sgiliau beth bynnag yw eu lleoliad daearyddol neu eu dewis o ysgol. Bydd yn cynyddu nifer y disgyblion sydd â sgiliau siarad Cymraeg uwch. Bydd hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol o fewn y ddarpariaeth addysgol bresennol ac yn gymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei wireddu mewn partneriaeth ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys y Cyngor, ysgolion, yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter laith.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorodd Cyngor Sir Ddinbych ar gynllun strategol 3 blynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2017-2020 dros 8 wythnos rhwng 24 Hydref a 19 Rhagfyr 2016.

8.2 Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan y Cyngor yn yr adran 'ymgynghoriad cyfredol' ac anfonwyd dolen at dros 900 o randdeiliaid drwy e-bost. Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda phobl ifanc gan bencampwr llais y dysgwr a chynhaliwyd dwy sesiwn, un yn Ninbych a'r llall yn y Rhyl.

8.3 Heb gynnwys y sylwadau a gafwyd o gyfarfodydd Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r digwyddiadau ymgynghori â disgyblion, dim ond pymtheng ymateb ychwanegol a gafwyd yn ystod 8 wythnos y cyfnod ymgynghori.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai cost darparu'r Cynllun Strategol fod wedi'i gynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg i enw da'r cyngor a risg rheolaethol os nad ydym yn diwallu gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) o safbwynt yr angen statudol i baratoi ac adolygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer ein hardal.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- 11.1 Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithredu dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.  
Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Rheoliadau Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg 2013 i wneud penderfyniad.

**CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**  
**2017 – 2020**

DRAFT

**Tachwedd 2017**  
**Fersiwn 1.9**

## Rhagair

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)2013 ("Deddf 2013") yn gofyn i bob awdurdod lleol baratoi cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol i gynhyrchu a chyflwyno eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i Lywodraeth Cymru i ddangos sut y maent yn bwriadu cyflawni'r deilliannau a'r targedau a amlinellir gan Lywodraeth Cymru a sut y bydd yn cyfrannu at y weledigaeth i weld un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r cynllun strategol 3 blynedd yma yn anelu at ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y ddarpariaeth addysg yn Sir Ddinbych ac yn cyfrannu tuag at y cyd-destun a blaenoriaethau polisi ehangach fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei strategaethau:

- Ailysgrifennu'r dyfodol;  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy>
- Dyfodol llwyddiannus;  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?skip=1&lang=cy>
- Cenedlaethau'r dyfodol;  
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Bydd y cynllun hwn yn cael ei dargedu ar wella sgiliau cyfathrebu a dealltwriaeth lafar. Bydd sgiliau a ddatblygwyd yn y blynyddoedd cynnar yn gwella dilyniant yn yr iaith Gymraeg a bydd yn gosod y sylfaen a fydd yn arwain at normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn cyfrannu tuag at weledigaeth Strategaeth iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017 - 2022 sydd yn cynnwys cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pobl ifanc drwy gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn Gymraeg.

-----

## Cynllun Drafft 2017 – 2020

### **Gweledigaeth ac ymrwymiad hir dymor:**

Rydym yn Sir Ddinbych am i bob plentyn a pherson ifanc adael addysg llawn amser yn gymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

#### **Amcanion:**

- Sicrhau digon a datblygu lleoedd ysgol Cyfrwng Cymraeg drwy'r Sir.
- Cefnogi'r cynnydd mewn sgiliau cyfathrebu a dealltwriaeth llafar yn y Gymraeg ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar.
- Cynyddu'r gyfran a safon y Gymraeg a ddysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Cynyddu'r gyfran o ddysgwyr sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.
- Codi cyrhaeddiad mewn Cymraeg ac mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol ym mhob ysgol.
- Datblygu gweithlu cynaliadwy i gefnogi darpariaeth y dyfodol.

#### **Datganiad:**

Yn y cynllun hwn rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ac ein partneriaid . Mae rhain yn cynnwys cynyddu cyrhaeddiad yn Gymraeg ar draws pob cyfnod allweddol, cynyddu'r gyfran o Gymraeg a ddysgir, y gyfran o ddysgwyr sy'n derbyn graddau A\* - C mewn TGAU Cymraeg iaith Gyntaf a datblygu sgiliau'n gweithlu.

Rydym wedi mewnosod amcanion strategaeth Ailysgrifennu'r Dyfodol yn y cynllun hwn. Ein bwriad yw sicrhau drwy y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif bod capasiti digonol i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch drwy'r sir. Bydd ein hamcanion hefyd yn cefnogi'r pontio di-dor o leoliadau cartref neu ofal plant i addysg y Cyfnod Sylfaen, dilyniant o ysgol i ysgol a herio tangyflawniad dysgwyr.

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar greu sylfeini cadarn drwy wella cyfathrebu a dealltwriaeth llafar gan ddechrau o leoliadau cyn-ysgol, targedu cryfhau'r iaith o fewn ysgolion cynradd a gwella dilyniant ym mhob cyfnod allweddol. Mae hyn yn dangos sut rydym wedi ymgorffori argymhellion y strategaeth Dyfodol Llwyddiannus o fewn y cynllun hwn.

Bydd Grŵp Strategol Cymraeg Mewn Addysg yn cefnogi ac yn monitro gweithrediad y cynllun hwn yn erbyn yr amcanion a gytunwyd. I gyd fynd a hyn bydd disgwyl i pob ysgol o fewn y sir gynnwys eu cynnydd yn erbyn deilliannau y cynllun hwn yn adroddiad blynyddol eu Llywodraethwyr i rieni. Bydd hyfforddiant bwrpasol yn cael ei ddarparu i lywodraethwyr.

Drafft yw'r cynllun ar hyn o bryd sydd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gabinet Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru yn unol ag anghenion Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cludiant i'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed os nad dyma eu hysgol gymwys agosaf. I'r diben hwn, byddai'n ysgol sy'n darparu dros 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr oedran Cynradd neu lle mae dros 80% o bynciau (a eithrio Cymraeg a Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr oedran Uwchradd. Ym mis Medi 2016, o fewn Sir Ddinbych byddai hyn fel a ganlyn:

Cynradd:

- Ysgol Betws Gwerfil Goch
- Ysgol Bro Cinmeirch
- Ysgol Bro Dyfrdwy
- Ysgol Bro Elwern
- Ysgol Carreg Emlyn
- Ysgol Dewi Sant
- Ysgol Gymraeg y Gwernant
- Ysgol Henllan
- Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
- Ysgol Pantpastynog
- Ysgol Pen Barras
- Ysgol Pentrecelyn
- Ysgol Tremeirchion
- Ysgol Twm o'r Nant
- Ysgol y Llys

Uwchradd:

- Ysgol Brynhyfryd
- Ysgol Dinas Bran
- Ysgol Glan Clwyd

Noder os yw'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg agosaf y tu allan i Sir Ddinbych yna y byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn gyson a'r polisi uchod sef i'r ddarpariaeth addas agosaf.



## Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Y sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
303 o 1123 disgybl 26.98%	333 o 1145 29.09%	279 o 1046 26.67%	306 o 1085 28.2%

### Prif amcanion:

- Cyflawni prosiectau cyfalaf cyfredol erbyn 2020 a datblygu cynigion sy'n darparu lle ar gyfer twf mewn nifer disgyblion sydd am gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu a gweithredu rhaglen i gefnogi ysgolion gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a fewn eu darpariaeth gwricwlwm erbyn 2020.
- Cyflwyno rhaglen i gyflwyno cyfathrebu llafar drwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn 3 – 5 oed ym mhob lleoliad cyn-ysgol erbyn 2020.
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i wella argaeledd a safon y wybodaeth sydd ar gael i rieni a gwarcheidwaid erbyn 2018.

### Datganiad cefnogol:

Adlewyrchir y targedau uchod y ffaith bod disgyblion saith oed 2020 eisoes wedi ymuno ar dosbarth meithrin ac o ganlyniad ni fyddai targedau mwy heriol yn gyraeddadwy. Er hyn anelir y bydd dros 30% yn mynychu darpariaeth meithrin Cyfrwng Cymraeg erbyn 2018 gyda cynnydd at 33% erbyn 2020. Bydd y gwaith yn y cynllun hwn felly yn effeithio ar darged deilliant un 2021 a thu hwnt.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae Cyngor Sir Ddinbych wedi buddsoddi mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Llys (Prestatyn), Ysgol Twm o'r Nant (Dinbych) ac Ysgol Bro Dyfrdwy (Cynwyd). Yn ogystal â hynny, mae buddsoddiad cyfalaf pellach wedi ei gytuno a'i gynnwys yng Nghynllun Cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych ac yn rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif er mwyn buddsoddi mewn cyfleusterau cyfrwng Cymraeg yn ardal Rhuthun ar gyfer Ysgol Penbarras ac Ysgol Carreg Emlyn. O ganlyniad i'r cynlluniau cyfalaf a'r cynigion statudol fydd yn cael eu gwireddu hyd at 2020 bydd cynnydd y nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg a lleihad mewn lle oedd cyfrwng Saesneg.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i fonitro a mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau fod digon o leoedd ar gyfer twf mewn niferoedd disgyblion a datblygu prosiectau Ysgolion 21ain Ganrif. Ym Mis Medi 2016 roedd 2244 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg llawn amser o fewn y sir gyda 2028 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr. Er mwyn cynyddu capasiti mewn lleoliadau sydd â llai na 10% o leoedd dros ben byddwn yn datblygu capasiti ychwanegol yn yr ardaloedd hyn gyda chyllid sydd ar gael o gytundebau Adran 106. Ystyrir yr effaith ar ddarpariaeth Gymraeg agosaf pan yn cyfrifo y cyfraniad o ddatblygiadau cyfagos yn unol a rheoliadau Adran 106. Y Gwasanaeth Addysg a Phlant fydd yn arwain ar gynigion i ehangu'r ddarpariaeth gyda derbyniadau Adran 106 a bydd y cynigion hyn yn unol a amcanion y CSGA hwn a Strategaeth Iaith y Sir.

Byddwn yn cynnal arolwg er mwyn mesur y galw i gwrdd â gofynion rheoliadau 2013. I gyd-fynd a'r gwaith hwn byddwn yn parhau i weithio gyda Mudiad Meithrin er mwyn monitro niferoedd sy'n mynychu lleoliadau cyn-ysgol, trosglwyddiadau i ysgolion cynradd a'r nifer o leoedd cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Sir.

Ar hyn o bryd mae 73% o leoedd mewn ysgolion cynradd sydd yn cynnig llai na 50% o'r cynnig cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg lle caiff disgyblion eu hasesu fel Cymraeg 2il iaith. Byddwn yn datblygu meini prawf a fydd yn ein galluogi i dargedu cefnogaeth i ysgolion gynyddu'r faint o Gymraeg a ddysgir fel rhan o'r llwybr dysgu cynradd. Bydd pob ysgol â amserlen ar gyfer cynnydd a fydd yn cynnwys cerrig milltir allweddol yn eu cynllun datblygu ysgol. Bydd GwE a Cyngor Sir Ddinbych yn monitro datblygiad cwricwlwm pob ysgol, bydd yr Urdd yn darparu cefnogaeth i ddatblygu gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd Mudiad Meithrin yn cefnogi darpariaeth cyn-ysgol.

Dangosir ganfyddiadau Asesiad Digonolrwydd gofal Plant 2017 fod y ddarpariaeth Gymraeg / dwyieithog gyfredol yn cwrdd a gofynion rhieni. Mae argaeledd darpariaeth Gymraeg yn amrywio gyda canran is ar gael yn ngogledd y sir sydd yn cyd-fynd a demograffeg ieithyddol y sir. Er enghraifft mae 23% o warchodwyr plant yn ngogledd y sir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog tra bod 60% yn ne y sir. Mae mwyafrif y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddarpariaeth cyn/ar ôl ysgol neu yn Gylch Meithrin. Drwy ein prosiectau cyfalaf yn Ardal Rhuthun bydd lle o fewn yr adeiladau newydd a all gael ei ddefnyddio ar gyfer darparu/ehangu gofal cyn ysgol.

Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen gyfathrebu llafar drwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn 3 – 5 oed ym mhob lleoliad gofal plant drwy sir Ddinbych. Bydd y rhaglen yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin ac yn sicrhau bod holl ddisgyblion meithrin â o leiaf sgiliau llafar sylfaenol a dealltwriaeth o'r Gymraeg erbyn eu bod yn 5 oed. Bydd hyn yn sefydlu sylfaen sgil cadarn yn yr iaith ac yn galluogi pob ysgol i gynyddu cyrhaeddiad yn Gymraeg. Bydd hefyd yn darparu sail ar gyfer darparu mwy o'r cwricwlwm cyfnod sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Byddwn yn gwella argaeledd a safon y wybodaeth sydd ar gael i rieni a gwarcheidwaid am y Gymraeg mewn addysg. Gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Mudiad Meithrin a Menter Iaith byddwn yn adolygu'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael. Byddwn yn ymateb i adborth a defnyddio arfer da i ddiweddarau'r wybodaeth sydd ar gael. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yma yn cynnwys gwybodaeth am y lleoedd sydd ar gael a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n hwyr ddyfodiaid. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth i hwyr ddyfodiaid yn cael ei ddarparu ar sail beripatetig oherwydd lleoliadau daearyddol amrywiol y disgyblion sydd angen cefnogaeth. Pan fyddwn wedi ei adolygu bydd y wybodaeth ar gael drwy gyfrwng llwyfannau gwahanol a fydd yn cael eu hadnabod drwy gynllun cyfathrebu penodol. Bydd y cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa briodol. Ar ôl cyhoeddi, byddwn yn monitro addasrwydd y wybodaeth gan gysylltu ag ymgeiswyr meithrin, monitro'r trosglwyddiad o gychoedd meithrin a byddwn yn parhau i ddiweddarau ac addasu'r wybodaeth i sicrhau ei fod yn aros yn amserol a pherthnasol.

## Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Y sefyllfa gyfredol *	2017/2018	2018/2019	2019/2020
21.3% - 254 allan o 1194	22%	23%	25%

\* Y ganran o ddisgyblion a asesir mewn Cymraeg iaith Gyntaf ar draws y Sir ar ddiwedd Blwyddyn 9.

Prif amcanion:

- Cynyddu'r ganran o ddisgyblion a asesir mewn Cymraeg iaith Gyntaf ar draws y Sir ar ddiwedd Blwyddyn 9 i 25% erbyn 2020.
- Cynyddu'r nifer sydd yn trosglwyddo o CA2 i CA3 i 98% erbyn 2020.
- Cynyddu'r nifer o leodedd Cynradd sy'n addysgu dros 20% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg i 40% erbyn 2020.
- Cynyddu'r gyfran o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen i dros 50% erbyn 2020 mewn ysgolion sydd eisoes yn dysgu rhwng 20% a 50% o'r holl gwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.

Datganiad cefnogol:

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ei strategaeth 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' yn nodi'r bwriad i symud oddi wrth y cysyniad o'r Gymraeg fel ail iaith ac i'r Gymraeg gael ei dysgu fel un iaith. Mewn ymateb i'r weledigaeth hon, er mwyn cynyddu nifer y disgyblion a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd blwyddyn 9, byddwn yn gweithio gydag Ysgolion Brynhyfryd a Dinas Bran er mwyn cyflwyno'r cysyniad o'r Gymraeg fel un pwnc a chynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn edrych ar ddichonolrwydd sefydlu darpariaeth ymyrraeth gefnogol yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth yn weithdrefn ffurfiol o fewn y ddwy ysgol i gefnogi disgyblion sydd wedi ei hasesu yn Gymraeg iaith Gyntaf ar ddiwedd CA2 a sydd yn adnabod anhawster parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ynghyd a hyn bydd cyfle i ddisgyblion mwy abl a thalentog 2il-iaith fanteisio ar gefnogaeth bellach i ddilyn cwrs iaith gyntaf Cymraeg iaith.

Ym mis Medi 2016 trosglwyddodd 90% o ddisgyblion o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg CA2 i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg CA3 o fewn Sir Ddinbych. Mae hyn yn ostyngiad o 7% o'i gymharu a 2015. Bwriadwn gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth CA3 cyfrwng Cymraeg drwy weithio gyda phob ysgol uwchradd sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio'r trosglwyddo. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn monitro a dadansoddi'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo o CA2 i CA3 er mwyn galluogi i dargedau addas gael eu gosod ar lefel ysgolion unigol. Byddwn hefyd yn edrych ar y wybodaeth sydd ar gael yn ystod y broses dderbyn i ysgol. I gyd fynd ar gweithgaredd, bydd data'r Siarter iaith yn cael ei ddefnyddio i nodi bylchau mewn cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn

gymdeithasol a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i dargedu gweithgareddau yn y meysydd hyn ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 5 i 8.

Ar hyn o bryd mae 69% o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg Sir Ddinbych yn darparu llai na 20% o'i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn adnabod yr ysgolion sydd a'r capasiti i gynyddu'r addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020 ac yn targedu'r gefnogaeth i ysgolion unigol er mwyn cynyddu faint o Gymraeg a ddysgir dros amserlen a gytunir a'r ysgol. Bydd cerrig milltir yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau datblygu'r ysgolion gyda'r nôd i sicrhau bod 40% o'r lleoedd cynradd yn darparu dros 20% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020.

Yn yr ysgolion lle defnyddir y Gymraeg fel y cyfrwng dysgu ar gyfer rhwng 20% a 50% o'r holl gwricwlwm cynradd (Ysgol Dyffryn Iâl, Ysgol Caer Drewyn, Ysgol Carrog ac Ysgol Bryn Clwyd) byddwn yn darparu cefnogaeth i alluogi'r ysgolion hyn i ddarparu mwy o'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020. Gan gydweithio gyda GwE, byddwn yn cytuno ar amserlen gyda phob ysgol ac ymgorffori cerrig milltir allweddol yng nghynlluniau datblygu'r ysgol.

Bydd y prosiect cyfalaf yn Ysgol Glan Clwyd yn sicrhau digon o leoedd cyfrwng Cymraeg dilynol uwchradd i ddisgyblion sy'n byw yng ngogledd y Sir. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau bod 1250 o leoedd yn Ysgol Glan Clwyd er mwyn cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn galw.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Mae'r sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg isod:

Y sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
100% 216 disgybl (2016)	100%	100%	100%

Mae'r sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg isod.

Y sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
100% 216 disgybl (2016)	100%	100%	100%

Rhestrwch eich prif amcanion i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

- Cynyddu'r nifer o ddysgwyr Blwyddyn 11 sy'n astudio 5 bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg i 260 disgybl erbyn 2020;
- Cynnydd o 25% yn y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnal a datblygu opsiynau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg newydd ar draws y Sir.
- Cynyddu'r ganran o ddysgwyr 16 – 19 sy'n astudio 2 bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion i 22% erbyn 2020;
- Defnyddio canlyniadau data'r ysgol i ymateb i ac i wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cynnal o leiaf 30 o gyrsiau cyfrwng Cymraeg yn flynyddol mewn partneriaeth ffurfiol hyd at 2020;

Datganiad cefnogol:

Y dair ysgol o fewn Sir Ddinbych sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran. Mae disgyblion Ysgol Glan Clwyd yn astudio eu holl bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ffrwd Gymraeg yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran (Gweler atodiad data am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg).

Bydd yr amcan a nodwyd yn neilliant 2 sef dechrau cyflwyno'r Gymraeg fel un pwnc ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran yn galluogi mwy o ddisgyblion i ddilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi'r ddwy ysgol i sicrhau hyfywedd eu dewisiadau TGAU cyfrwng Cymraeg presennol ac yn rhoi cyfle iddynt gynyddu'r nifer o gyrsiau TGAU cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y dyfodol.

Mae'r nifer o ddysgwyr 16 - 19 sy'n astudio dau bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf o 11.3% i 21.4% gan ddibynnu ar faint y grŵp a dewis yr unigolion. O ganlyniad i'r amrywiaeth a'r her o gynnal y ddarpariaeth gyfredol mae targed uchelgeisiol wedi ei gosod i gynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n astudio 2 bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg i 22% erbyn 2020. Yn y cyd-destun hwn mae targed i gynyddu a chynnal y nifer o ddysgwyr i dros 230 y flwyddyn wedi ei osod.

Gan weithio mewn partneriaeth gydag ymgynghorwyr her GwE, bwriadwn fonitro deilliannau ysgolion er mwyn ysgogi her a chefnogaeth ychwanegol er mwyn gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Darperir y mwyafrif o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn Ysgol Glan Clwyd. Mae pob cwrs yn Ysgol Glan Clwyd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda rhai cyrsiau yn cael eu cynnig yn Ysgol Brynhyfryd yn ddibynnol ar alw. Rydym yn bwriadu cynnal y cynnig presennol o leiafswm o 30 cwrs Cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn mewn partneriaeth ffurfiol hyd at 2020. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i weithio gyda Choleg Llandrillo, Coleg Cambria ac Ysgol Brynhyfryd i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion barhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl 16.

### Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

Iaith Gyntaf	Y sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Cyfnod Sylfaen Deilliant 5	91.9%	92%	92.5%	93%
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	90.6%	91%	91.5%	92%
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+	92.5%	93%	93.5%	94%
Cyfnod Allweddol 4 Graddau A* - C	73.6%	74%	74.5%	75%

#### Prif amcanion:

- Cynyddu cyrhaeddiad mewn Cymraeg iaith gyntaf fel a ganlyn erbyn 2020.
  - 93% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn cyflawni deilliant 5.
  - 92% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cyflawni Lefel 4 +
  - 94% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn cyflawni Lefel 5 +
  - 75% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn cyflawni A\* - C.
- **Sicrhau fod cyrhaeddiad mewn Cymraeg ail iaith yn 60% A\* - C erbyn 2020.**
- Gwella lefel sgiliau llafar a dealltwriaeth Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol erbyn 2020.

#### Datganiad cefnogol:

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gynnal a gwella'r lefel o Gymraeg iaith gyntaf ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Mae'r targedau a osodwyd yn uchelgeisiol ar gyfer pob mesur ac wedi eu selio ar y datblygiad cryf sydd wedi ei wneud hyd at 2016. Byddwn yn gweithio gyda GwE er mwyn clustnodi ysgolion lle mae angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn gwella cyrhaeddiad. Bydd cefnogaeth ychwanegol ar gyfer darparu cwricwlwm gan GwE, arbenigwyr priodol a chefnogaeth allgyrsiol gan bartneriaid.

**Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i wella cyrhaeddiad mewn Cymraeg 2il iaith. Yn 2016 llwyddodd 72.1% o ddysgwyr i gael A\* - C yn y cwrs TGAU Cymraeg ail iaith llawn a 52% i gael A\* - C yn y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith.**

**Mae'r targed o 60% A\* - C yn heriol o ystyried y cynnydd mewn myfyrwyr fydd yn dilyn y cwrs erbyn 2020 o ganlyniad i'r ffaith bod CBAC wedi dileu'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith. Yn 2016 roedd 53% o ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn astudio y cwrs byr.**

Bydd lefel sgiliau Cymraeg llafar ym mhob cyfnod allweddol yn cael eu gwella drwy:

- Ddatblygu canolfannau o fewn ysgolion a fydd yn cynnal rhwydwaith gefnogi ar gyfer ysgolion cyfagos i ddatblygu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.
- Gweithio gyda'r Urdd i dargedu darparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol mewn ardaloedd sy'n cael eu hadnabod gan ddata'r siarter iaith.
- Gweithio gyda'r Urdd i dargedu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n cynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.
- Hwyluso gweithgareddau cymunedol fel digwyddiadau cymdeithasol a gwersi Cymraeg i oedolion.

Mae'r Cyngor a cytundeb a'r Urdd i ddarparu Gwasanaeth Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg yn Sir drwy gytundeb lefel gwasanaeth. O ganlyniad mae gan yr Urdd rôl arweiniol yn y Sir i gefnogi defnydd iaith anffurfiol. Mae'r cynllun gweithredu yn adnabod rôl sefydliadau eraill i gefnogi defnydd iaith anffurfiol gan gynnwys Fforwm Ieuenctid y Sir, Ysgolion, Menter Iaith, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Clybiau Chwaraeon. Un o flaenoriaethau'r cynllun gweithredu fydd i osgoi dyblygu gweithgareddau o fewn ardaloedd penodol er mwyn sicrhau cyfranogiad.



## **Deiliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

Prif amcanion:

- Gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg er mwyn nodi unrhyw fylchau yn flynyddol hyd at 2020.
- Datblygu darpariaeth allgymorth hyblyg i gefnogi mwy o ddysgwyr o fewn y ddarpariaeth prif ffrwd.
- Datblygu sgiliau ieithyddol staff arbenigol i ymateb i newidiadau yn y galw.
- Hwyluso cyfleoedd dysgu a cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Plas Brondyffryn.

Datganiad cefnogol:

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn derbyn cefnogaeth ieithyddol gyfartal ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd capasiti y gwasanaeth cyfredol yn cael ei asesu'n flynyddol a byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir yn y ddarpariaeth. Bydd patrymau'n cael eu monitro a lle mae unrhyw fylchau'n cael eu pontio ar hyn o bryd, datblygir datrysiadau tymor hir.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i sicrhau fod disgyblion mewn darpariaeth prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn derbyn yr un lefel o gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sydd i'w gael mewn darpariaeth prif ffrwd cyfrwng Saesneg. Byddwn yn archwilio ffyrdd o ddatblygu'r gefnogaeth hon ymhellach o fewn darpariaeth prif ffrwd er mwyn ymateb i anghenion dysgwyr unigol.

Mae dysgwyr unigol angen staff sy'n eu cefnogi i gael y sgiliau ieithyddol priodol. Byddwn yn datblygu sgiliau ieithyddol staff mewn lleoliadau arbenigol i'w galluogi i ymateb i newidiadau yn y galw.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion ac i gefnogi cyfleoedd dysgu a cymdeithasol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd partneriaid yn gweithio gydag Ysgol Plas Brondyffryn ac Ysgol Tir Morfa i wella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyd-destun ethos Gymraeg yr ysgolion.

## **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Prif Amcanion:

- Nodi'r bylchau cyfredol a bylchau'r dyfodol o safbwynt y Cyngor, ysgolion, ac o safbwynt y gefnogaeth sydd ei angen gan GwE
- Targedu datblygu sgiliau'r gweithlu presennol.
- Creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau staff Gwasanaeth Addysg a Phlant.
- Targedu datblygiad sgiliau o fewn cynlluniau datblygu ysgol o fewn cyd-destun gwella safonau.

Datganiad cefnogol:

Byddwn yn cynnal archwiliad sgiliau iaith Gymraeg er mwyn clustnodi bylchau sgiliau cyfredol a lle bydd y bylchau'n debygol o fodoli yn y dyfodol. Bydd newidiadau mewn faint o Gymraeg a ddysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn effeithio ar anghenion sgiliau staff a'r cymorth ieithyddol a fydd angen gan GwE a'r Cyngor.

Bydd mynediad at gynllun sabothol y Gymraeg yn cael ei dargedu tuag at feysydd blaenoriaeth fel y nodwyd yn neilliannau 1 i 6 y cynllun strategol hwn. Fel bydd ysgolion yn cynyddu'r swm o Gymraeg sy'n cael ei ddysgu, bydd hyfforddiant fel y cynllun sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i gefnogi datblygiad sgiliau athrawon a chynorthwyrwyr addysgu.

Byddwn yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Addysg a Phlant a thrwy weithredu rhaglen mentor iaith Strategaeth Iaith y Cyngor. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn mentora dysgwyr i'w helpu i ymarfer a dod yn hyderus wrth siarad Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi'r staff i ddatblygu eu sgiliau a sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnal safonau Cymraeg y Cyngor.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i ymgorffori datblygu sgiliau staff ym mhob cynllun datblygu ysgol. Bydd hyn yn galluogi pob ysgol i gael targed penodol ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn seiliedig ar eu lefel sgil presennol sydd yn gyraeddadwy ac yn atebol. Bydd hyn hefyd yn galluogi ysgolion sy'n cynyddu faint o Gymraeg a ddysgir i gael dangosydd mesuradwy i gefnogi'r amcan strategol. Bydd llywodraethwyr ysgolion hefyd yn cael eu darparu a hyfforddiant ar y cynllun strategol hwn a'u hannog i gynnwys yr iaith Gymraeg yn eu hadroddiad blynyddol i rieni.

<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	18 Rhagfyr
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Bobby Feeley / Nicola Stubbins
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Margaret Watkins, Swyddog Datblygu Staff
<b>Teitl:</b>	Fframwaith Mwy Na Geiriau

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad am y gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â datblygu'r fframwaith Mwy Na Geiriau.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Hysbysu'r aelodau o'r cynnydd mewn perthynas â'r fframwaith.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

I nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. **Manylion yr adroddiad**

Mae 'Mwy Na Geiriau' yn fframwaith sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Nod y fframwaith a gyhoeddwyd yn 2012 yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod yr iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cynnig. Gelwir hyn y "Cynnig Gweithredol".

Fel rhan o'r fframwaith 'Mwy Na Geiriau' mae angen sicrhau bod dinasyddion yn:

- derbyn gofal priodol mewn iaith o ansawdd uchel;
- cael mynediad i wasanaethau iaith Gymraeg ar draws wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol pan fyddant eu hangen;
- cael eu sicrhau trwy'r ddarpariaeth 'Cynnig Gweithredol' eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad amlwg i gyflawni newid ac i wella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr angen iaith Gymraeg yn gydran allweddol o ofal, i gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Ar gyfer 2017-18, bydd y Cyngor yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- darparu manylion ar sut y mae gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ynghyd â thargedau i sicrhau gwelliant;
- sicrhau bod galluoedd iaith Gymraeg a chymhwysedd staff yn cael eu sefydlu yng ngweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio;
- rhannu arfer da wrth ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg a sut i wneud "Cynnig Gweithredol" gyda'r holl staff wedi eu cyflogi yn uniongyrchol neu o fewn gwasanaethau wedi'u comisiynu:

- darparu hyfforddiant ac adnoddau iaith i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg i wella'u hyder wrth gyflawni gwasanaethau yn y Gymraeg.
- darparu rhyngwynebau a meddalwedd Gymraeg (fel Cysgliad) i staff gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn eu helpu i weithio'n ddwyieithog.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad blynyddol gan Sir Ddinbych ar gyflawni camau penodol wrth weithredu'r fframwaith. Monitro pellach o weithredu'r fframwaith yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o'r gwasanaeth a systemau monitro presennol (hy mewn arolygiadau AGGCC).

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r fframwaith yn cyfrannu at iechyd a lles preswylwyr yn ogystal â hyrwyddo'r cynnig gweithredol o dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n unol â'r ymrwymiad a wnaed yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor i roi mwy o gyfleoedd i bobl gael mynediad i wasanaethau iaith Gymraeg. Paratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r fframwaith yn effeithio gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf gan fod yna groesi o ran gwaith sy'n cael ei wneud yn gorfforaethol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r buddion allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Iaith Gymraeg.

Un o gyfansoddiadau allweddol Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cael: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb trwy ei Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

## **8. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw'r methiant i gwrdd â chamau gweithredu wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu blynyddol a phreswylwyr methu cael mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith.

I leihau'r risgiau, sefydlwyd grŵp monitro sy'n cyfarfod bob tri mis i gadw golwg ar y cynnydd.

Mae rhaglen o gyfathrebu a hyfforddiant wedi'i wneud i sicrhau bod holl staff gofal cymdeithasol yn deall ac yn weithgar o ran gweithredu gweithgareddau i'w cael yn y fframwaith.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (Disgrifiad / Teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
<b>Mawrth 2018</b>	1	Safonau'r Iaith Gymraeg (hunan asesiad)	Ystyried diweddariad ar yr hunan asesiad	Y Cyng. Huw Hilditch-Roberts / Gareth Watson
	2	Diweddariad ar y cynnydd gyda'r Strategaeth Iaith Gymraeg	Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor	Y Cyng. Huw Hilditch-Roberts / Gareth Watson
	3	Swydd Swyddog y Gymraeg	Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar rôl y Swyddog Iaith Gymraeg newydd	Cynghorydd Huw Hilditch Roberts Gareth Watson
	4	Eisteddfod yr Urdd - rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.	Diweddarau'r Aelodau ynglŷn â chynnydd gyda threfniadau corfforaethol ar gyfer yr Eisteddfod	Y Cyng. Huw Hilditch-Roberts / Gareth Watson
	5	Gweithio ar y cyd rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych a'r Urdd	Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith parhaus rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd i wella darpariaeth i bobl ifanc	Roger Ellerton
<b>Mehfin 2018</b>	1	Cynnydd gyda Safonau'r Iaith Gymraeg (hunan asesiad)	Ystyried diweddariad ar yr hunan asesiad	
	2	Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg Blynyddol	Cytuno ar yr Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg Blynyddol sydd angen ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin	Cynghorydd Huw Hilditch Roberts Gareth Watson
	3	Rôl Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	Diweddarau aelodau'r Pwyllgor am waith parhaus Hyrwyddwyr Yr Iaith Gymraeg	Cynghorydd Huw Hilditch Roberts Gareth Watson

***Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau***

Cyfarfod	Dyddiau Cau	Cyfarfod	Dyddiau Cau	Cyfarfod	Dyddiau Cau
Mis Mawrth		Mehfin			

Diweddarwyd 05/12/2017 - KEJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag